



YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR Polisi Disgyblion sy'n derbyn Gofal

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :

Mrs Delyth Spurway

Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:

Miss Sioned Jones

Dirprwy ADDP Ystalyfera:

Mrs Rhiannon Hammond/Mrs Angharad Lloyd

Dirprwy ADDP Bro Dur:

Miss Kath Jones

Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:

Mrs Carys Jones

Adopted by Governing Body 2018

Signed (Chair of Governors):

January 2018

Reviewed by Governing Body:

Signed (Chair of Governors):

January 2019

Signed (Chair of Governors):

January 2020

Signed (Chair of Governors):

January 2021

Signed (Chair of Governors):

January 2022

POLISI YSGOL AR GYFER ADDYSG DISGYBLION SY'N DERBYN GOFAL

Cred Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro dur, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, fod gennym ddyletswydd fel rhieni corfforaethol, i ddiogelu a hyrwyddo addysg plant sy'n derbyn gofal.

Nod:

Darparu amgylchedd saff a diogel, lle mae cred yng ngallu a photensial pob plentyn.

I gefnogi ein plant sy'n derbyn gofal gan rhoi mynediad cyfartal iddynt er mwyn cyflawni eu potensial a mwynhau dysgu.

Cyflawni rôl ein hysgol fel rhiant corfforaethol, i hyrwyddo a chefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal (disgyblion sy'n derbyn gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a/neu awdurdodau eraill).

Sicrhau bod holl bolisiau a gweithdrefnau'r ysgol yn gynhwysol ac yn cael eu dilyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Bydd y pennaeth yn:

- Enwebu athro dynodedig (Mrs Delyth Spurway YGY) (Miss Sioned Jones BD) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a fydd yn gweithredu fel eiriolwr ac yn cydlynu cymorth.
- Sicrhau bod llywodraethwr ysgol yn cael ei enwebu i oruchwylio bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol yn cael eu hystyried ar lefel reoli ysgol ac i gefnogi'r athro dynodedig.
- Trefnu amser i'r athro dynodedig fynychu'r hyfforddiant a'r cyfarfodydd adolygu statudol priodol.
- Sicrhau bod canllawiau Cynulliad Cenedlaethol 2/2001 yn cael eu hymgorffori ym mholisi'r ysgol.
- Glynu wrth bolisi derbyn i ysgolion yr awdurdod lleol.


Bydd yr athro dynodedig:

- Yn cynnal (gyda chymorth systemau electronig) gofnod cyfredol o'r holl ddisgyblion sy'n derbyn gofal ar gofrestr yr ysgol.
- Orlhain a monitro cynnydd disgyblion unigol sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod gwybodaeth addysgol yn cael ei throsglwyddo'n gyflym rhwng asiantaethau, ysgolion newydd ac unigolion.
- Sicrhau bod cynllun addysg personol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, i gynnwys targedau priodol.
- Sicrhau bod yr ysgol yn rhannu ac yn cefnogi disgwyliadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod diwylliant o gydweithredu cadarnhaol yn cael ei feithrin. Lle mae anawsterau cyfathrebu'n codi gyda gweithwyr cymdeithasol neu ofalwyr maeth, gwneir cyswllt â chydlynnydd addysg plant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei lunio gyda'r gofalwr.
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal, ynghyd â phob plentyn, yn cael eu clywed a'u bod yn cael cyfle cyfartal i gael cymorth bugeiliol yn yr ysgol.

- Sicrhau bod anghenion addysgol y plentyn yn cael eu nodi mewn ymgynghoriad â'i athro/athrawon er mwyn mynd i'r afael â nhw drwy osod heriau a thargedau academaidd realistig. Cymorth ychwanegol ar gael i'r gwasanaethau addysg plant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli yn yr adolygiadau LAC a/neu fod y ddogfen ymgynghori ysgolion yn cael ei chwblhau a'i dychwelyd at y swyddog adolygu annibynnol.
- Sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi a allai fygwth y lleoliad ysgol heb oedi. Dylid cymryd pob cam i atal gwaharddiad, gan gynnwys rhoi rhaglen cymorth bugeiliol ar waith, atgyfeirio am gymorth ymddygiad, cynnwys y gwasanaeth lles addysg.

Bydd staff a llywodraethwyr ysgolion yn:

- Cefnogi'r awdurdod lleol yn ei ddyletswydd statudol i hyrwyddo cyflawniad addysgol disgyblion sy'n derbyn gofal.

	Name	Signature	Date
Chair of Governors	Mr Alun Llewelyn		January 2021
Head Teacher	Mrs Laurel Davies		January 2021

Dyddiad Adolygu

Ionawr

2022